# ASESIAD O'R EFFAITH AR HAWLIAU PLANT


| Teitl y cynnig: | Adolygiad Diogelu Unedig Sengl (ADUS) |
|---|---|

Rhaid anfon **pob** Asesiad o'r Effaith ar Hawliau Plant cyflawn i flwch post CRIA@gov.wales.

Mae Mesur Hawliau Plant a Phobl Ifanc (Cymru) 2011 yn gosod dyletswydd ar Weinidogion Cymru i roi sylw dyladwy i Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn a'i Brotocolau Dewisol wrth arfer unrhyw rai o'u swyddogaethau.

Cytunwyd mai Asesiad o'r Effaith ar Hawliau Plant yw'r dull y dylai swyddogion ei ddefnyddio i gefnogi Gweinidogion i gyflawni'r ddyletswydd hon a sicrhau eu bod yn rhoi ystyriaeth gytbwys i hawliau plant wrth wneud penderfyniadau. Dylid defnyddio'r Asesiad i lywio cyngor gweinidogol a rhaid ei gwblhau cyn gwneud penderfyniad gweinidogol. Unwaith y bydd penderfyniad wedi'i wneud, rhaid cyhoeddi'ch Asesiad o'r Effaith ar Hawliau Plant hefyd.

*Mae gennym Grŵp Cynghori ar Hawliau Plant ers tro, sy'n cynnwys swyddfa Comisiynydd Plant Cymru, UNICEF, Arsyllfa Cymru ar Hawliau Dynol Plant a Phobl Ifanc, a Plant yng Nghymru, y gellir ei ddefnyddio i drafod neu brofi eich Asesiad drafft. Cysylltwch â'r Gangen Blant CRIA@gov.wales am fanylion pellach.*




*I gael rhagor o gyngor ac arweiniad ar broses Asesiad o'r Effaith ar Hawliau Plant, trowch at Y Cynllun Hawliau Plant: llawlyfr i staff Llywodraeth Cymru neu cysylltwch â'r Gangen Blant CRIA@gov.wales*

## 1. Amcanion polisi

- Effaith pa benderfyniad ydych chi'n ei asesu?

Bydd y broses Adolygiad Ymarfer Plant yn cael ei disodli gan y broses Adolygiad Diogelu Unedig Sengl (ADUS).

Aethpwyd ati i ddatblygu'r Adolygiad Diogelu Unedig Sengl (ADUS) yng Nghymru er mwyn adeiladu ar yr arferion da a ddaeth i'r amlwg o greu'r prosesau Adolygiad Ymarfer Oedolion ac Adolygiad Ymarfer Plant a ddisodlodd y canllawiau Adolygiad Achos Difrifol blaenorol ym mis Ebrill 2016. Cafodd prosesau Adolygiad Ymarfer Oedolion ac Adolygiad Ymarfer Plant eu gosod yn *Rheoliadau Byrddau Diogelu (Swyddogaethau a Gweithdrefnau) (Cymru) 2015*[1] er mwyn cael dealltwriaeth well o'r hyn a ddigwyddodd a pham. Mae'r dull gweithredu yn gwella'r ddealltwriaeth o'r effeithiau a gafodd gweithredoedd sefydliadau ac asiantaethau, ac a allai camau gwahanol fod wedi arwain at ganlyniadau gwahanol i destun yr adolygiad. Y nod cyffredinol yw creu amgylchedd dysgu.

## 2. Casglu tystiolaeth ac ymgysylltu â phlant a phobl ifanc

Bydd ADUS yn gweithredu canfyddiadau adolygiad academaidd 2018 dan arweiniad yr Athro Amanda Robinson (2018)[2] o Brifysgol Caerdydd, ac adolygiad ymarferydd Llywodraeth Cymru gan y Prif Gwnstabl Cynorthwyol Liane James (2018)[3]. Roedd yr adroddiadau'n dadansoddi'r dirwedd bresennol ar gyfer adolygiadau diogelu ochr yn ochr â sampl o Adolygiadau Lladdiadau Domestig, Adolygiadau Ymarfer Oedolion, Adolygiadau Ymarfer Plant ac Adolygiadau Lladdiadau Iechyd Meddwl. Roedd yr adroddiadau hyn yn tynnu sylw at yr angen i wella cydlynu, cydweithio, cyfathrebu, a llywodraethu wrth gynnal adolygiadau yng Nghymru. Fe wnaeth yr adroddiadau argymhellion yn seiliedig ar eu canfyddiadau sy'n cael eu hadlewyrchu ym mhrosesau newydd y system ADUS. Hefyd, fe wnaeth yr adroddiadau ddatgelu sefyllfa gymhleth lle'r oedd cyrff datganoledig a heb eu datganoli yn cynnal adolygiadau ar wahân ac mewn rhai achosion heb yn wybod i Lywodraeth Cymru, a heb ei chyfraniad. Arweiniodd hyn yn y pen draw at yr argymhelliad am broses adolygu sengl.
Yn seiliedig ar yr ymchwil uchod, mae'r ADUS wedi'i ddatblygu i gryfhau'r maes adolygu yng Nghymru. Nod yr ADUS yw:

- creu un broses adolygu sy'n cwmpasu dull amlasiantaeth lle bodlonir y meini prawf ar gyfer **un neu fwy** o'r adolygiadau canlynol:
    - Adolygiad Ymarfer Oedolion;

---

[1] *Rheoliadau Byrddau Diogelu (Swyddogaethau a Gweithdrefnau) (Cymru) 2015.* https://www.legislation.gov.uk/cy/wsi/2015/1466/contents/made/welsh

[2] Robinson, A., Rees, A. a Dehaghani, R. (2018) 'Findings from a thematic analysis of reviews into adult deaths in Wales: *Domestic Homicide Reviews, Adult Practice Reviews and Mental Health Homicide Reviews'*

[3] James, L. (2018) '*Domestic Homicide Reviews in Wales: Illuminate the Past to Make the Future Safer'*

  - Adolygiad Ymarfer Plant;
  - Adolygiad Lladdiad Domestig;
  - Adolygiad Lladdiad Iechyd Meddwl; ac
  - Adolygiad Lladdiad ag Arf Ymosodol[4].

- dileu'r angen i deuluoedd gymryd rhan mewn cylch beichus a thrawmatig o roi gwybodaeth a disgwyl am gasgliadau adolygiadau niferus;
- sicrhau bod y testun a'r teulu wrth wraidd y broses;
- defnyddio'r ddealltwriaeth a'r hyn a ddysgwyd o'r broses Adolygu i sicrhau newid cadarnhaol mewn ymarfer i atal niwed yn y dyfodol;
- darparu rhwydwaith cymorth gwell, gan sicrhau bod Llywodraeth Cymru yn goruchwylio argymhellion ar gyfer gwasanaethau datganoledig a heb eu datganoli yng Nghymru, drwy uwchgyfeirio problemau neu faterion i'r Bwrdd Gweinidogol;
- darparu cymorth drwy Hwb Cydgysylltu ADUS i'r Byrddau Diogelu sy'n rheoli’r broses ADUS;
- sicrhau cysylltiadau clir rhwng cyrff lleol, rhanbarthol a chenedlaethol tra'n parchu amrywiadau rhanbarthol a lleol mewn trefniadau;
- cadw adroddiadau terfynol ADUS mewn storfa ganolog (Storfa Ddiogelu Cymru) a hwyluso hyfforddiant Cymru gyfan a dysgu lleol, rhanbarthol, cenedlaethol a rhyngwladol; a
- defnyddio Storfa Ddiogelu Cymru a dysgu cysylltiedig er mwyn cefnogi unrhyw newidiadau i arferion, prosesau a diwylliannau a fydd yn atal niwed yn y dyfodol.

Datblygwyd yr holl broses ar y cyd â rhanddeiliaid ac ymarferwyr a thrwy ymwneud â'r Comisiynydd Plant ac asiantaethau'r trydydd sector sy'n gweithio gyda phlant a phobl ifanc. Maent wedi gallu dangos tystiolaeth o'r effeithiau cadarnhaol y bydd y cynnig hwn yn eu cael ar blant a phobl ifanc ar hyd y broses ddatblygu er mwyn sicrhau ei fod yn addas i'r diben yn ymarferol. Mae Grŵp Cyfeirio Dioddefwyr a Theuluoedd ADUS hefyd wedi'i sefydlu ac mae'n rhoi arweiniad ar ddatblygu’r broses ADUS a sut rydym yn datblygu arferion da wrth ymgysylltu â thestun yr adolygiad, aelodau o'r teulu a phrif unigolion gan gynnwys plant a phobl ifanc.

- Gan ddefnyddio'r gwaith ymchwil hwn, sut ydych chi'n rhagweld y bydd eich polisi yn effeithio ar wahanol grwpiau[5] o blant a phobl ifanc, yn gadarnhaol ac yn negyddol?

[4] Bydd Adolygiadau Lladdiadau ag Arf Ymosodol yn cael eu treialu (2023) gan ddefnyddio'r broses ADUS yng Nghymru, ac felly gallant newid.

[5] Er enghraifft, gallech ystyried sut byddai’ch polisi yn effeithio’n wahanol ar y grwpiau canlynol o blant a phobl ifanc: blynyddoedd cynnar, cynradd, uwchradd, oedolion ifanc; plant ag anghenion dysgu ychwanegol; plant anabl; plant sy'n byw mewn tlodi; plant Du, Asiaidd ac ethnig leiafrifol; Sipsiwn, Roma

Cofiwch y gall polisïau sy'n canolbwyntio ar oedolion effeithio ar blant a phobl ifanc hefyd.

Bydd ADUS yn creu dull symlach ond manwl o gynnal adolygiadau sy'n lleihau trawma i destun yr adolygiad a/neu ei deuluoedd, yn lleihau dyblygu ymdrechion, yn defnyddio adnoddau, ac yn cyflawni'r gwerth gorau. Bydd yn sicrhau bod y dioddefwr a'r teulu sydd wedi'u heffeithio wrth galon y broses adolygu.

- Pa waith cyfranogol gyda phlant a phobl ifanc ydych chi wedi'i ddefnyddio i lywio eich polisi? Os nad ydych wedi ymgysylltu â phlant a phobl ifanc, esboniwch pam.[6]

Datblygwyd y broses gyfan ar y cyd â rhanddeiliaid ac ymarferwyr sy'n gweithio gyda phlant a phobl ifanc. Maent wedi gallu dangos tystiolaeth o'r effeithiau cadarnhaol y bydd y cynnig hwn yn eu cael ar blant a phobl ifanc ar hyd y broses ddatblygu er mwyn sicrhau ei fod yn addas i'r diben yn ymarferol. Roeddem yn ofalus i osgoi achosi trawma drachefn i'r plant a'r bobl ifanc drwy weithio gyda'u heiriolwyr a sefydliadau trydydd sector sy'n gweithio gyda nhw yn hytrach na'r plant a'r bobl ifanc eu hunain. Roedd hyn yn sicrhau bod eu lleisiau'n cael eu clywed wrth gasglu eu profiadau, ond nad oedd rhaid iddynt gymryd rhan mewn cyfarfodydd na wynebu grwpiau mawr o ymarferwyr eu hunain.

Mae cynlluniau peilot ADUS wedi'u cynnal gan Fyrddau Diogelu  Cymru. Os oedd plant yn rhan o'r achos (naill ai fel dioddefwyr uniongyrchol, neu fel aelodau o deulu testun yr adolygiad), yna byddent wedi dod i gysylltiad â'r ADUS fel rhan o'r broses hon.

Sefydlwyd grŵp Cyfeirio Dioddefwyr a Theuluoedd ADUS hefyd i ddarparu fforwm ar gyfer llais dioddefwyr a theuluoedd ledled Cymru, er mwyn llywio'r broses o gyflawni ADUS. Mae aelodaeth y grŵp yn cynnwys cynrychiolaeth o'r Gwasanaeth Eiriolaeth Ieuenctid Cenedlaethol a Chomisiynydd Plant Cymru, yn ogystal ag asiantaethau trydydd sector eraill. Mae'r Cylch Gorchwyl yn cefnogi cyfraniad uniongyrchol dioddefwyr a theuluoedd eu hunain pan fo hynny'n briodol.

Roedd proses ymgynghori ADUS yn cynnwys fersiwn Hawdd eu Deall a fersiwn Pobl Ifanc o'r Canllawiau Statudol. Unwaith y bydd y canllawiau wedi'u cwblhau'n derfynol bydd fersiynau newydd ohonynt ar gael yn Gymraeg a Saesneg hefyd.

*I gael cyngor ar waith cynnwys plant a phobl ifanc, cysylltwch â'r Gangen Plant. Mae gennym berthynas hirsefydlog ag elusen Plant yng Nghymru, a allai eich helpu i weithio gyda phlant a phobl ifanc drwy eu rhaglen Cymru Ifanc.*

a Theithwyr; mudwyr; ceiswyr lloches; ffoaduriaid; siaradwyr Cymraeg; plant â phrofiad o fod mewn gofal; plant LHDTC+. Cofiwch nad rhestr gyflawn mo hon, ac na fydd pawb o fewn y carfanau hyn yn rhannu'r un profiad.

[6] Mae Erthygl 12 o'r CCUHP yn datgan bod gan blant yr hawl i leisio eu barn, yn enwedig pan fydd oedolion yn gwneud penderfyniadau sy'n effeithio arnynt, ynghyd â'r hawl i sicrhau bod pobl yn ystyried eu barn.

*I gael cyngor ar waith cynnwys plant a phobl ifanc, cysylltwch â'r Gangen Plant. Mae gennym berthynas hirsefydlog ag elusen Plant yng Nghymru, a allai eich helpu i weithio gyda phlant a phobl ifanc drwy eu rhaglen Cymru Ifanc.*

**3. Dadansoddi'r dystiolaeth ac asesu'r effaith**

- Gan ddefnyddio'r dystiolaeth a gasglwyd gennych, pa effaith mae'ch polisi yn debygol o'i chael ar blant a phobl ifanc? Pa gamau fyddwch chi'n eu cymryd i liniaru a/neu leihau unrhyw effeithiau negyddol?

Bydd ADUS yn creu dull symlach ond manwl o gynnal adolygiadau sy'n lleihau trawma i deuluoedd, yn lleihau unrhyw ddyblygu ymdrechion, yn defnyddio adnoddau, ac yn cyflawni'r gwerth gorau. Bydd yn sicrhau bod y dioddefwr a'r teulu sydd wedi'u heffeithio wrth galon y broses adolygu.

Mae'r canllawiau ymgysylltu ar gyfer rhyngweithio â phlant a phobl ifanc wedi'u cynnwys yn yr adran '*Ymgysylltu â Theulu a Phrif Unigolion yn y broses Adolygiad Diogelu Unedig Sengl*' yng Nghanllawiau Statudol ADUS. Cafodd y canllawiau ymgysylltu eu creu gydag ymarferwyr (gan gynnwys sefydliadau'r trydydd sector) sy'n gweithio gyda phlant a phobl ifanc mewn prosesau adolygu. Mae'r adran hon yn cynnig arweiniad i ymarferwyr a fydd yn ymgysylltu â dioddefwyr a theuluoedd (gan gynnwys plant) ar hyd y broses gyfan. Bydd ymarferwyr yn cael hyfforddiant ADUS hefyd a fydd yn cynnwys adran seiliedig ar dystiolaeth sy'n nodi'r broses ar gyfer ymgysylltu.

Mae Siart Llif Ymgysylltu ADUS yn cael ei ddatblygu (fel arfer da) gan Grŵp Cyfeirio Dioddefwyr a Theuluoedd ADUS o ganlyniad i adborth a gafwyd o'r ymgynghoriad a gwaith datblygu ADUS. Bydd yn cael ei ddefnyddio gan ymarferwyr ochr yn ochr â Chanllawiau Statudol ADUS i lywio eu gwaith ymgysylltu, helpu i asesu a nodi anghenion unigolion yn gynnar a darparu unrhyw gymorth sydd ei angen er mwyn helpu plant a phobl i gyfrannu at adolygiad yn y modd mwyaf priodol.

- Sut mae eich cynnig yn gwella neu'n herio hawliau plant, fel y'u nodir yn erthyglau CCUHP a'i Brotocolau Dewisol? Trowch at yr erthyglau i weld pa rai sy'n berthnasol i'ch polisi eich hun.

| Erthyglau neu brotocol dewisol CCUHP | Gwella (X) | Herio (X) | Esboniad |
|---|---|---|---|
| **Erthygl 1**<br>Mae gan bob un dan ddeunaw oed yr hawliau sydd yn y Confensiwn hwn. | X | | Proses symlach sy'n lleihau trawma. Mae'r canlyniadau yn cael eu defnyddio wedyn i atal niwed pellach a digwyddiadau tebyg. |
| **Erthygl 3**<br>Dylai pob sefydliad sy'n ymwneud â phlant weithio at yr hyn sydd orau i bob plentyn. | X | | Bydd proses ADUS yn creu dysgu ac yn lledaenu'r dysgu hwn ledled Cymru i bob sefydliad sy'n cael cysylltiad â phlant ac oedolion agored i niwed fel gwasanaeth. Bydd hyn yn helpu i wella ymarfer er mwyn sicrhau bod cymunedau'n derbyn y cymorth gorau i'w hanghenion. Bydd cynnwys yr Adroddiadau o fewn Storfa Ddiogelu Cymru yn galluogi ymarferwyr i chwilio themâu ac argymhellion perthnasol sy'n ymwneud â phlant a phobl ifanc |
| **Erthygl 12**<br>Mae gan blant yr hawl i ddweud eu barn ynghylch yr hyn a ddylai ddigwydd pan fo oedolion yn gwneud penderfyniadau sy'n effeithio arnyn nhw, ac i'w barn gael ei hystyried. | X | | Bydd plant (sy'n destun yr adolygiad neu'n perthyn mewn rhyw ffordd i destun yr adolygiad) yn rhan o'r broses ADUS os ydynt yn dymuno (ac yn cael y cymorth sydd ei angen i wneud hynny). Bydd hyn yn rhoi cyfle iddynt rannu eu profiadau eu hunain o'u safbwyntiau nhw. Bydd ganddynt lais o ran a ydynt am fod yn rhan o'r broses ac i ba raddau. |
| **Erthygl 13**<br>Mae gan blant yr hawl i gael a rhannu gwybodaeth ar yr amod nad yw'r | X | | Bydd plant (sy'n destun yr adolygiad neu'n perthyn mewn rhyw ffordd i destun yr adolygiad) yn gallu cael gafael ar wybodaeth briodol am y broses adolygu a |

| | | | |
|---|---|---|---|
| wybodaeth yn niweidiol iddyn nhw ac i eraill. | | | byddant yn derbyn yr wybodaeth ddiweddaraf am yr hyn sy'n digwydd yn ystod eu hadolygiad. |
| **Erthygl 19**<br><br>Dylai llywodraethau ofalu bod plant yn cael y gofal priodol,a'u cadw rhag trais, camdriniaeth ac esgeulustod gan eu rhieni neu unrhyw un arall sy'n edrych ar eu hôl. | X | | Bydd y broses ADUS yn creu dysgu ac yn lledaenu'r dysgu hwn ledled Cymru i bob sefydliad sy'n cael cysylltiad â phlant ac oedolion agored i niwed fel gwasanaeth. Bydd hyn yn helpu i wella ymarfer er mwyn sicrhau bod cymunedau'n derbyn y cymorth gorau i'w hanghenion. |
| **Erthygl 27**<br><br>Mae gan blant yr hawl i safon bywyd sy'n ddigon da i ddiwallu eu hanghenion corfforol a meddyliol. Dylai'r Llywodraeth helpu rhieni na allant fforddio darparu hyn. | X | | Bydd y broses adolygu yn cynhyrchu dysgu y gellir ei ddefnyddio i wella gwasanaethau sydd â'r nod o helpu plant a phobl ifanc. Yna gellir gwella'r gwasanaethau hyn yn seiliedig ar dystiolaeth. Bydd y gwasanaethau mewn gwell sefyllfa wedyn i helpu plant ac i wella eu safon byw. |
| **Erthygl 32**<br><br>Dylai'r Llywodraeth gadw plant rhag gwaith sy'n beryglus neu a allai amharu ar eu hiechyd neu eu haddysg.<br><br>**Erthygl 33**<br><br>Dylai'r Llywodraeth ddarparu ffyrdd o gadw plant rhag cyffuriau peryglus.<br><br>**Erthygl 34** | | | Amddiffyn plant ac oedolion agored i niwed rhag cael niwed yw nod cyffredinol y broses ADUS. O'r dysgu sy'n cael ei gynhyrchu a'i ledaenu o'r adolygiadau, bydd gwasanaethau i atal y math hwn o gam-drin yn cael eu gwella a'u diweddaru i ddiwallu anghenion sy'n newid yng nghymunedau Cymru. |

| | | | |
|---|---|---|---|
| Dylai'r Llywodraeth gadw plant rhag camdriniaeth rywiol.<br><br>**Erthygl 35**<br><br>Dylai'r Llywodraeth ofalu na chaiff plant eu cipio neu eu gwerthu.<br><br>**Erthygl 36**<br><br>Dylai plant gael eu gwarchod rhag gweithgarwch a allai amharu ar eu datblygiad.. | | | |
| **Erthygl 39**<br><br>Dylai plant sydd wedi cael eu hesgeuluso neu eu cam-drin gael help arbennig i adfer eu hunan-barch | | | Nod y broses ADUS yw helpu i wella gwasanaethau sy'n cefnogi plant a phobl ifanc sydd wedi cael eu hesgeuluso neu eu cam-drin. |

- Dylech ystyried a yw unrhyw rai o Hawliau Dinasyddion yr UE (y cyfeirir atynt yn yr Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb) yn ymwneud â phobl ifanc hyd at 18 oed. Amherthnasol

*I gael rhagor o wybodaeth am UNCRC a'i brotocol dewisol, ewch i dudalen fewnrwyd Hawliau Plant.*

**4. Cyngor Gweinidogol a phenderfyniad y Gweinidog**

- Sut y bydd eich dadansoddiad o'r effeithiau hyn yn llywio eich cyngor gweinidogol?

Bydd yr asesiad o'r effaith yn cael ei gynnwys fel rhan o'r cyngor gweinidogol i gymeradwyo canllawiau statudol ADUS a gweithredu'r broses yng Nghymru.

- ➢ *Ar ôl ei gwblhau, rhaid i'ch Asesiad o'r Effaith ar Hawliau Plant gael ei gymeradwyo gan eich Dirprwy Gyfarwyddwr.*

- ➢ *Dylai canfyddiadau eich Asesiad o'r Effaith ar Hawliau Plant gael eu hintegreiddio yn eich cyngor gweinidogol i lywio eu penderfyniad.*

## 5. Cyhoeddi'r Asesiad o'r Effaith ar Hawliau Plant

- *Yn dilyn penderfyniad gweinidogol, dylid cyhoeddi'r Asesiad o'r Effaith ar Hawliau Plant ar wefan Llywodraeth Cymru.*

- *Anfonwch adrannau 1 ac 8 o'ch Asesiad Effaith Integredig a'r Asesiad o'r Effaith ar Hawliau Plant (Atodiad A) at eich rheolwr gwe adrannol i'w cyhoeddi.*

- *Rhaid anfon **pob** Asesiad o'r Effaith ar Hawliau Plant cyflawn i flwch post CRIA@gov.wales hefyd.*

---

*I gael rhagor o wybodaeth a chymorth gyda'r broses hon, ewch i'r Dudalen Fewnrwyd Hawliau Plant sy'n cynnwys adnoddau amrywiol.*

---

## 6. Cyfathrebu â Phlant a Phobl Ifanc

- Os ydych chi wedi gofyn am farn plant a phobl ifanc ar eich cynnig, sut y byddwch yn rhoi gwybod iddynt am y canlyniad?

Anfonwyd y ddogfen 'Crynodeb o Ymatebion' at bawb a wnaeth ymateb i'r ymgynghoriad cyhoeddus ar ganllawiau statudol ADUS. Roedd y ddogfen hon yn

---

*Os yw eich polisi'n effeithio ar blant a phobl ifanc, cofiwch gynhyrchu fersiynau sy'n addas i blant o unrhyw ddogfen gyhoeddus sy'n ymwneud â'ch cynnig. Cysylltwch â'r Gangen Plant am gyngor pellach.*

---

cynnwys dadansoddiad o'r ymatebion a gafwyd a chamau nesaf arfaethedig Llywodraeth Cymru ar ôl ymgynghori. I weld y ddogfen hon, ewch i'r ddolen ganlynol: https://www.llyw.cymru/canllawiau-statudol-adolygu-diogelu-unedig-unigol-aduu

Roedd yr ymatebion i'r ymgynghoriad yn nodi'r angen i roi mwy o sylw trylwyr i brofiadau plant gydol y broses adolygu, a sicrhau bod Adolygwyr yn teimlo eu bod wedi'u paratoi'n ddigonol i ymgysylltu'n effeithiol â nhw. O ganlyniad, mae Grŵp Cyfeirio Dioddefwyr a Theuluoedd ADUS yn datblygu Siart Llif Ymgysylltu arfer da, er mwyn helpu'r rhai sy'n cynnal adolygiad i ymwneud â phob unigolyn sy'n rhan o'r adolygiad. Bydd yn cynnwys cyfeiriadau penodol ar y ffordd orau o ymgysylltu â phlant a phobl ifanc.

Hefyd, roedd yr ymatebion i'r ymgynghoriad yn nodi'r angen i sicrhau bod argymhellion a chamau gweithredu sy'n gysylltiedig â phlant yn cael eu monitro i sicrhau eu bod yn cael eu gweithredu ac yn cyflawni'r canlyniadau a ddymunir. Bydd monitro'r camau gweithredu a'u darpariaeth yn rôl barhaus i'r Byrddau Diogelu a'r Hwb Cydgysylltu.

Bydd adroddiadau i'r Grŵp Strategaeth a'r Bwrdd Gweinidogol. Mae'r rhain yn lefelau newydd o gefnogaeth nad oeddent ar gael o'r blaen.

Bydd fersiwn Plant a Phobl Ifanc o Ganllawiau Statudol ADUS yn cael ei chyhoeddi yn Gymraeg a Saesneg.

*Os yw eich polisi'n effeithio ar blant a phobl ifanc, cofiwch gynhyrchu fersiynau sy'n addas i blant o unrhyw ddogfen gyhoeddus sy'n ymwneud â'ch cynnig. Cysylltwch â'r Gangen Plant am gyngor pellach.*

**7. Monitro ac Adolygu**

Mae'n hanfodol ailedrych ar eich Asesiad o'r Effaith ar Hawliau Plant i nodi a welwyd yr effeithiau a nodwyd yn wreiddiol, ac a oedd unrhyw ganlyniadau anfwriadol.

Pan fyddwch yn bwrw ymlaen ag is-deddfwriaeth, ni fydd yn ddigon dibynnu ar yr Asesiad o'r Effaith ar Hawliau Plant ar gyfer y ddeddfwriaeth sylfaenol; bydd angen i chi ddiweddaru'r Asesiad i ystyried sut y gallai manylion y cynigion yn y rheoliadau neu'r canllawiau effeithio ar blant.

Gall yr arweinydd polisi adolygu’r fersiwn a gyhoeddwyd o'u Hasesiad o'r Effaith ar Hawliau Plant a gyhoeddwyd, ei ailenwi fel adolygiad o'r Asesiad gwreiddiol, a diweddaru'r dystiolaeth o effaith. Dylid cyflwyno'r asesiad effaith wedi’i adolygu i Weinidogion gydag unrhyw gynigion i ddiwygio'r polisi, ymarfer neu ganllawiau. Dylid cyhoeddi’r asesiad adolygu hwn hefyd.

- Amlinellwch pa ddull monitro ac adolygu y byddwch yn eu rhoi ar waith i adolygu’r Asesiad o’r Effaith ar Hawliau Plant hwn.

- Yn dilyn yr adolygiad hwn, a fydd angen cyflwyno unrhyw ddiwygiadau i’r polisi neu i’r modd y caiff ei weithredu?

Unwaith y bydd ADUS ar waith, bydd yr Hwb Cydgysylltu yn monitro sut y cyflawnir pob Adolygiad, gan gynnwys trwy gasglu ffurflenni 'Myfyrdodau ar yr Adolygiad' ar ddiwedd pob adolygiad. Mae'r ffurflenni hyn yn cynnwys adran benodol ar ymgysylltu ac yn rhoi cyfle i dimau adolygu gasglu adborth ar y broses adolygu gan y rhai a fu’n rhan o’r adolygiad. Bydd Grŵp Cyfeirio Dioddefwyr a Theuluoedd ADUS yn cymryd rhan yn y broses fonitro hefyd. Bydd yr Asesiad Effaith Integredig hwn yn rhan o'r gwaith adolygu hwn ac yn cyfrannu at bwyntiau gwerthuso rheolaidd i sicrhau bod y materion hynny a nodwyd yn cael eu hystyried neu fod gwaith yn parhau lle bo angen.

Yn ogystal, bydd yr holl Argymhellion ADUS a'r camau cysylltiedig yn cael eu monitro a'r canlyniadau yn cael eu dadansoddi. Bydd unrhyw rwystrau i weithredu argymhellion a chamau gweithredu cysylltiedig yn cael eu hadrodd i'r Grŵp Strategaeth ac, os oes angen, y Bwrdd Gweinidogol er mwyn mynd i'r afael â nh